

Cofion

- Cofiwedd heddiw am y rhai sydd wedi cyfarfod â phroffedigaeth yn ystod yr wythnos, a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Beti Williams (Llansannan) gafodd lawdriniaeth ddechrau'r wythnos ond sydd erbyn hyn yn cael gofal yn yr Inffirmari. Dymunwn wellhad buan iawn iddi, ac i Hywel Wyn Davies a Bessie Owens (Cefn Berain) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Treuliodd Ann Williams (Henllan) ychydig o ddyddiau yno hefyd, ond da deall ei bod hi bellach wedi cael dod adref. Cofiwedd yn annwyl hefyd am eraill o'n plith sydd ddim yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn a'r rhai hynny sydd wedi cael anffawd yn ddiweddar. Cyflwynwn y cleifion oll yn ein gweddïau i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

I ddod

- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 11eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn **am 9.30**.
- **SWPER NADOLIG Y CYFARFODYDD GANOL WYTHNOS / OEDFA'R FRO** yn Ffestri Llansannan, nos Fercher, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** o gwmpas y llyn yng Nghwm Idwal, dydd Iau, Rhagfyr 29ain. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Ein bwriad yw galw i weld Capel Nant y Benglog yng Nghapel Curig am 10.30, sef y capel bychan lle roedd Rhodri yn aelod cyn iddo ddod i Llansannan, ac yna cyfarfod ym maes parcio Cwm Idwal am 11.00 i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr, ac yna (gan nad oes lle addas i gael picnic ger y llyn yr adeg yma o'r flwyddyn), mynd i gael cinio ym Metws y Coed erbyn tua 12.45-1.00. (Ni fydd y daith gerdded yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n ansad ar ei draed, nac ar gyfer unrhyw beth fydd ar olwynion, ond croeso i bawb ddod i weld y capel ac i dreulio amser ym Metws y Coed nes medrwn ail-ymgynnull amser cinio os byddwch yn dymuno hynny.) Rhowch eich enw i Mair **erbyn Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni fel y gallwn archebu cinio ymlaen llaw, a gwneud trefniadau parcio os am fynd i weld y capel.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Ionawr 1af **am 10.30** yng Nghapel Llanefydd.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Tachwedd 2016

Darlleniad y Dydd

Esther 4:12-17

(BCND tud.454 / BCN tud.416)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i oedfaon y dydd ym Mro Aled heddiw. Wrth i ni gael cyfle unwaith eto i foli'r Arglwydd graslon hefo'n gilydd, gweddïwn ar i Dduw fod yn drugarog wrthym, ac i'w Ysbryd weithio yn rymus ynom wrth i ni wrando ar ei Air. Gofynnwn mewn ffydd am i ni gael y cymorth i droi cefn ar bechod er mwyn dyfnhau ein perthynas â'r unig Waredwr cyflawn, delw'r Duw anweledig - Iesu Grist.

Nos Fercher yn Llanefydd cawsom gyfle i ystyried gwahanol agweddau yn ymwneud â maes dyrys ffoaduriaid gan edrych ar rannau o'r Beibl am arweiniad. Diolch i bawb oedd yn bresennol am eich cyfraniadau i'r noson, a gweddïwn am ddoethineb a goleuni pellach trwy'r Ysbryd wrth ystyried yn Feiblaidd ein hymateb i'r argyfwng sy'n parhau. Â ninnau'n ymwybodol o'r angen dirfawr sydd mewn llawer gwlad, a'r profiadau erchyll sy'n wynebu miliynau o deuluoedd sydd wedi ffoi, neu ar fin gadael eu cartrefi, gall ceisio meddwl sut i ymateb fod yn llethol. Ond wrth droi at y Beibl, yr hyn sydd yn ein taro yw bod Duw trwy hanes yn dysgu ei bobl i sylweddoli yn gyntaf pwy yw eu Harglwydd, a'r hyn y mae Ef wedi ei wneud drostynt. Pam hynny? Oherwydd bod gwaith achubol Duw yn llinyn cyswllt cyson trwy'r Beibl wrth i Dduw alw ac achub pobl iddo'i hun er nad ydynt yn haeddu hynny mewn unrhyw fodd. Syriad yn crwydro oedd Jacob, tad cenedl Israel, ac o sefyllfa o ormes ddifrifol y rhyddhaodd Duw ei bobl o'r Aifft gan ddod â hwy i ddigonedd gwlad yr addewid. (Deuteronomium 26:5-9). Ac wedi i Dduw achub ei bobl, rhoddodd orchmynion iddynt i fyw yn ufudd iddo mewn ffordd a fyddai'n naturiol yn amlygu natur sanctaidd eu Hachubwr i weddill y byd. Un elfen o hyn oedd y ffordd y dylid trin dieithriaid – nid eu cam-drin a'u twyllo ond gofalu amdanynt fel y gwna'r Arglwydd. (Deuteronomium 10:17-19; Sechareia 7:9-10.)

Pan drown at y Testament Newydd hefyd mae'r Arglwydd mewn cymaint o ffyrdd yn gorchymyn ei bobl i'w efelychu Ef. Dyna'n union y mae Effesiaid 5:1-2 yn ei nodi: *'Felly dilynwch esiampyl Duw, gan eich bod yn blant annwyl iddo. Dylech fyw bywydau llawn cariad, yn union fel gwnaeth y Meseia ein caru ni a marw yn ein lle ni. Rhoddodd ei hun fel offrwm ac aberth oedd yn arogl'i'n hyfryd i Dduw.'*

Felly edrychwn at Dduw mewn diolchgarwch am iachawdwriaeth, gan holi ein hunain ydym ni'n ymateb i rai bregus ac mewn angen, yn bell ac agos, mewn modd sy'n adlewyrchu gras a chariad Duw?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 1:46-56 (BCND tud.61 / BCN tud.56)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Gwion yn pregethu. **** Yn dilyn yr oedfa, bydd y Parti Dynion yn dechrau ymarfer ar gyfer Gwasanaeth Carolau a Phlygain yr Ofalaeth. Croeso i bawb!**
- Llun – 28^{ain} ➤ **Christian Viewpoint** – Cyfarfod Nadoligaidd yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel (LL18 5BT) am 7.30 gyda Robin Oake, cyn Brif Gwnstabl a thad y Ditectif Gwnstabl Stephen Oake gafodd ei lofruddio tra ar ddyletswydd yn 2003 ond a gafodd fedal gan y Frenhines am ei ddewrder. Robin Oake yw awdur y ddau lyfr “Father Forgive: How to forgive the unforgivable” a “Father Forgive: The Forgotten ‘F’ Word”. Croeso i bawb. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mawrth – 29^{ain}
lau – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
➤ **Gofal bugeiliol gyda henoed, ac efo bobl sy'n wynebu diwedd oes** – Hyfforddiant gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn y Bala.
➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.
➤ **Cwrdd Chwarter** yn cyfarfod yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, cawn anerchiad y Llywydd Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan ac fe weinyddir y Cymun gan y Parch. Graham Floyd.
- Gwener – 2^{il} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 3^{ydd} ➤ **DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala.
➤ **Hwyl yr Ŵyl** - Mae'r Nadolig yn agosáu a bydd diwrnod yng Ngholeg y Bala i blant 7-11 oed rhwng 10.00 a 5.30 i ddathlu, ac a fydd yn gorffen gyda pharti Nadolig! Os hoffech archebu lle i'ch plentyn, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Rhodri yn pregethu.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Gareth a Lowri Evans yn cyflwyno Caron Lloyd i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 2^{il} ➤ ***SYLWCH*** Ni fydd Clwb Cinio yng Nghefn Berain yr wythnos hon. (Caiff dyddiad cinio mis Rhagfyr ei gadarnhau'n fuan.)
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.